

# Eich Taith Hawliau

Gweithgaredd Hawliau'r Gwanwyn

CA3/4



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

# Eich Taith Hawliau

Nawr bod Sally'n cyrraedd diwedd ei chyfnod fel Comisiynydd Plant, dyma fydd ei Gweithgaredd Hawliau olaf. Bydden ni'n hoffi i chi fanteisio ar y cyfle i feddwl am daith hawliau eich ysgol. Roedden ni'n meddwl y byddai'n gyfle da i chi feddwl am y gwaith rydych chi eisoes wedi'i wneud a gosod rhai nodau ar gyfer y dyfodol hefyd.

Bydd gan rai ysgolion daith hawliau hir, a bydd ysgolion eraill yn cychwyn ar eu taith. Isod fe gewch chi gynllun i'ch cefnogi wrth i chi greu eich taith hawliau. Os yw hawliau'n newydd i chi, rydyn ni wedi ychwanegu rhai syniadau eraill, sydd i'w gweld wrth y symbol \*.

Cyn i chi ddechrau mapio eich taith, gwylwch y [fideo yma gan ein tîm Cyfranogiad](#). Yn y fideo maen nhw'n rhannu ein taith hawliau ni, ac fe allai eich helpu i feddwl am batrwm eich map ffordd chi.

Ar ôl i chi orffen eich map gallwch ei rannu gyda ni ar Twitter trwy drydar am [@complantcymru](#) neu drwy anfon e-bost i [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)



## Cynllunio eich taith hawliau

Dilynwch y cynllun yma os ydych chi wedi gwneud llawer o waith ar hawliau plant.

1. Tynnwch lun o'ch map ffordd. Ar ddechrau'r ffordd rhowch y flwyddyn pryd dechreuoch chi ddysgu am hawliau, ac ar ddiwedd y ffordd rhowch y flwyddyn 2022.
2. Edrychwch ar ein rhestr o Weithgareddau Hawliau ac ychwanegwch y rhai mae eich ysgol wedi'u gwneud at eich map ffordd.

\*os ydych chi heb wneud Gweithgaredd Hawliau eto, gallech chi ddewis rhai yr hoffech chi roi cynnig arnyn nhw yn y dyfodol a'u hychwanegu at eich ffordd.

3. Meddyliwch am eich hoff Weithgaredd Hawliau a'i ychwanegu at eich map. Gofalwch eich bod yn esbonio pam roedd hwn yn ffefryn i chi.
4. Nesaf, tynnwch lun "Gorsaf y Dychymyg" ac ysgrifennu'r peth mwyaf creadigol rydych chi wedi'i wneud i ddysgu am hawliau. Gallai hynny olygu arddangosfa lunioch chi; gêm gwnaethoch chi greu, neu ddigwyddiad gynhalioch chi.

\*os ydych chi heb ddechrau dysgu am hawliau eto, gallech chi feddwl am rywbeth byddech chi'n hoffi ei greu i bawb yn eich ysgol.

5. Meddyliwch am eich "Tair Seren a Dymuniad", sef tri pheth rydych chi'n meddwl eich bod chi'n eu gwneud yn dda ac un peth hoffech chi wneud nesaf i ddysgu am hawliau plant yn eich ysgol.
6. Rhannwch eich taith gyda ni. Gallwch chi wneud hynny trwy drydar am [@complantcymru](mailto:post@complantcymru.org.uk) neu e-bostio [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)

**Gweithgareddau Hawliau i Lysgenhadon Myfyrwyr – Dyma restr o’r holl Weithgareddau Hawliau ers i Sally ddod yn Gomisiynydd Plant Cymru.**

Blwyddyn	Tymor	Tasg
2015	Hydref	Beth Nesa/What Next – arolwg cyntaf Sally (Fe ddwedsoch chi wrthyn ni am eich blaenoriaethau i Sally)
2016	Gwanwyn	Adborth i ddisgyblion eraill ar ganlyniadau Beth Nesa/What next –
2016	Haf	Adborth ar ein gwefan
2016	Hydref	Stori Sam (dewis o weithgareddau creadigol)
2017	Gwanwyn	Ein Hawliau
2017	Haf	Gwerthuso’r Cynllun Llysgenhadon
2017	Hydref	<a href="#">Stori Sam (cynlluniau gwersi)</a>
2018	Gwanwyn	<a href="#">Taclo Islamoffobia</a>
2018	Haf	<a href="#">Archwiliad Hawliau</a>
2018	Hydref	Beth Nawr – ail arolwg Sally
2019	Gwanwyn	<a href="#">Seiberfwlio</a>
2019	Haf	Archwiliad Hawliau
2019	Hydref	<a href="#">Prosiect Gwyrdd-droi</a>
2020	Gwanwyn	<a href="#">Gwneud Gwahaniaeth</a>
2020	Haf	<a href="#">Arolwg Coronafeirws a Fi</a>
2020	Hydref	<a href="#">Dyma Fi</a>
2021	Gwanwyn	Prosiect Pleidlais
2021	Haf	Haf o Hwyl
2021	Hydref	Llesiant yn eich ysgol
2022	Gwanwyn	Taith Eich Hawliau

